

Yn ddiweddar, bum yn ffodus iawn o gael cystadlu yn y gystadleuaeth barnu wyn tew yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Roeddwn wedi bod yn ymarfer a pharatoi'n drylwyr iawn cyn y diwrnod mawr, ac yn ffodus i mi, cefais 2il! Yn ogystal â hyn, cefais y wobr am yr araith orau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ond cyn cyrraedd y Ffair Aeaf, roedd rhaid i mi gystadlu dros Glwb Ffermwyr Ifanc Uwchaled yn Ffederasiwn Clwyd. Gan mai dyma oedd y tro cyntaf i mi gystadlu, roedd yn sioc fawr i wybod fy mod i wedi curo dros ugain o gystadleuwyr dan 16, (a'r mwyafrif yn fechgyn!!!). Roedd pawb oedd yn ennill unrhyw gystadleuaeth yn cael cynrychioli eu Sir yn y Ffair Aeaf. Roedd 15 o siroedd i gyd.

Roedd rhaid i mi fod yn y Ffair Aeaf erbyn 9.30 am. Felly doedd dim amdani ond cychwyn 6.00 am. Ar ôl cyrraedd, roedd rhaid i mi gofrestru yng nghanolfan y Ffermwyr Ifanc ar faes y sioe. Roedd y pili palas yn fy stumog yn dechrau cadw reiat erbyn hyn! Ar ôl i bawb oedd yn barnu wyn o dan 16 gofrestru, roedd hi'n amser mynd i fyny i'r sied ddefaid. Gwisgais fy nghot wen a ffwrdd a mi!

Yn y gorlan, roedd yna bedwar oen wedi eu marcio – A, B, X, Y. Y bwriad oedd dewis pa oen oedd yn gyntaf, ail, trydydd, a phedwerydd. Ar ôl dewis trefn yr wyn, roedd rhaid i bawb ysgrifennu araith i lenwi dau funud, yn cynnwys rhesymau dros roi'r wyn yn y drefn benodol. Yna, roedd rhaid dweud fy araith o flaen y beirniaid. Gosodais i'r wyn yn y drefn B, Y, X, A. Yn lwcus i mi dyma oedd y drefn gywir!

'Roedd rhaid aros tua tair awr am ganlyniad y gystadleuaeth, Doeddwn ddim yn disgwyl dim byd, felly roedd yn sioc fawr o wybod fy mod wedi ennill dwy wobr. Roeddwn yn teimlo'n llawn balchder, gan fy mod wedi gwneud cystal drwy Gymru gyfan a thu hwnt. Roedd hwn yn ddiwrnod i'w gofio!

Llywela Siriol Edwards

